



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 802 (Cy.87)

2002 No. 802 (W.87)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Cymru) 2002**

**The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Wales) Regulations
2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn darparu i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau ("trefniadau gweithrediaeth") ar gyfer creu a gweithredu gweithrediaeth o'r awdurdod, sef trefniadau y mae rhai o swyddogaethau'r awdurdod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth odanynt.

Part II of the Local Government Act 2000 ("the Act") provides for local authorities to make arrangements ("executive arrangements") for the creation and operation of an executive of the authority under which certain functions of the authority are the responsibility of the executive.

O dan adrannau 18 a 19 o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, sy'n galluogi gweithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru, neu bwyllgor neu aelod penodedig o weithrediaeth o'r fath, i wneud trefniadau i unrhyw swyddogaethau sydd, o dan y trefniadau gweithrediaeth yn gyfrifoldeb i'r awdurdod, gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod neu gan awdurdod lleol arall.

Under sections 18 and 19 of the Act the National Assembly for Wales may by regulations make provision which enables an executive of a local authority in Wales, or a committee or a specified member of such an executive, to make arrangements for the discharge by an area committee of the authority or by another local authority of any functions which, under executive arrangements, are the responsibility of the authority.

Mae adran 19 o'r Ddeddf hefyd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall.

Section 19 of the Act also enables the National Assembly for Wales, by regulations, to make provision which enables a local authority in Wales to make arrangements for the discharge by the executive of another local authority of any of the authority's functions.

O dan adran 20 o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i unrhyw swyddogaethau sydd, o dan y trefniadau gweithrediaeth, yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod gael eu cyflawni gan yr awdurdod hwnnw ac un neu ragor o awdurdodau lleol eraill ar y cyd.

Under section 20 of the Act the National Assembly for Wales may by regulations make provision which enables a local authority in Wales to make arrangements for the discharge by that authority and one or more other local authorities jointly of any functions which, under the executive arrangements, are the responsibility of the executive of the authority.

Mae Rheoliadau 3, 4 a 5 yn pennu'r personau sydd â'r pŵer i wneud trefniadau o'r fath yn achos gweithrediaeth maer a chabinet, gweithrediaeth arweinydd a chabinet a gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor yn y drefn honno.

Mae Rheoliad 6 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod hwnnw.

Mae Rheoliad 7 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall.

Mae Rheoliad 8 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau, o dan amgylchiadau penodedig, i swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall.

Os oes trefniadau wedi'u gwneud o dan Rheoliad 7 neu 8 i swyddogaethau awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall, mae Rheoliad 9 yn darparu bod y swyddogaethau hynny i gael eu trin fel swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw at ddibenion adrannau 14 i 16 o'r Ddeddf.

Os oes trefniadau wedi'u gwneud o dan Rheoliad 7 i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall, mae Rheoliad 10 yn darparu i'r dasg o arfer y swyddogaethau hynny gael ei dirprwyo i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r awdurdod lleol arall hwnnw.

Mae Rheoliad 11 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan yr awdurdod hwnnw ac un neu ragor o awdurdodau lleol eraill ar y cyd neu gan gyd-bwyllgor.

Mae Rheoliad 12 yn darparu ar gyfer aelodaeth cyd-bwyllgor a benodir yn unol â threfniadau a wneir o dan Rheoliad 11.

Mae Rheoliad 13 yn diddymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001.

Regulations 3, 4 and 5 specify the persons who have the power to make such arrangements in the case of a mayor and cabinet executive, a leader and cabinet executive and a mayor and council manager executive respectively.

Regulation 6 provides for the making of arrangements for the discharge of functions, which are the responsibility of the executive of a local authority in Wales by an area committee of that authority.

Regulation 7 provides for the making of arrangements for the discharge of functions which are the responsibility of the executive of a local authority in Wales by another local authority.

Regulation 8 provides for the making, in specified circumstances, of arrangements for the discharge of functions which are not the responsibility of the executive of a local authority in Wales by the executive of another local authority.

Regulation 9 provides that where arrangements have been made under Regulation 7 or 8 for the discharge of functions of a local authority in Wales by the executive of another local authority, those functions are to be treated as functions which are the responsibility of the executive of that other local authority for the purposes of sections 14 to 16 of the Act.

Regulation 10 provides that, where arrangements have been made under Regulation 7 for the discharge of functions which are the responsibility of the executive of a local authority in Wales by another local authority, the exercise of those functions may be delegated to a committee, sub-committee or officer of that other local authority.

Regulation 11 provides for the making of arrangements for the discharge of functions which are the responsibility of the executive of a local authority in Wales by that authority and one or more other local authorities jointly or by a joint committee.

Regulation 12 provides for the membership of a joint committee appointed in accordance with arrangements made under Regulation 11.

Regulation 13 revokes the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2001.

2002 Rhif 802 (Cy.87)**2002 No. 802 (W.87)****LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU****LOCAL GOVERNMENT,
WALES****Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Cymru) 2002****The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Wales) Regulations
2002***Wedi'u gwneud**21 Mawrth 2002**Made**21st March 2002**Yn dod i rym**1 Ebrill 2002**Coming into force**1st April 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1), (2), 19(1), (2), (4), (5), (6), 20(1), (2), 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a):-

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 18(1),(2), 19(1),(2),(4),(5),(6),20(1),(2), 105(2) and 106(1) and (2) of the Local Government Act 2000(a):-

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

Citation, commencement and application

1. -(1) These Regulations may be cited as the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st April 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

(2) These Regulations apply in Wales only.

Dehongli**2. Yn y Rheoliadau hyn-**

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(b);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") at ddibenion Rheoliadau 6(2), (3) ac 11(4) yw-

- (a) y maer etholedig os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth maer a chabinet;
- (b) y rheolwr cyngor os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth maer a rheolwr cyngor;
- (c) arweinydd y weithrediaeth os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth arweinydd a chabinet a bod y pŵer i wneud y trefniadau yn codi yn rhinwedd is-

Interpretation**2. In these Regulations -**

"the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Local Government Act 1972(b);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000;

"area committee" ("*pwyllogor ardal*") means a committee or sub-committee of a local authority as defined in section 18(3) of the 2000 Act;

"relevant person" ("*person perthnasol*") means for the purposes of Regulations 6(2), (3) and 11(4) -

- (a) where the local authority has a mayor and cabinet executive, the elected mayor;
- (b) where the local authority has a mayor and council manager executive, the council

(a) 2000 p.22

(b) 1972 p.70.

(a) 2000 c.22.

(b) 1972 c.70.

baragraffau (b), (c) neu (ch) o reoliad 4(1);

ystyr "pwyllgor ardal" ("*area committee*") yw pwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn adran 18(3) o Ddeddf 2000.

Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau maer a chabinet

3. Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth maer a chabinet, mae gan y personau canlynol bŵer i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11-

- (a) y maer etholedig mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;
- (b) oni bai bod y maer etholedig yn cyfarwyddo fel arall, gweithrediaeth yr awdurdod lleol, aelod o'r weithrediaeth heblaw'r maer etholedig, neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a all gael eu cyflawni, yn rhinwedd adran 14 o Ddeddf 2000, gan y weithrediaeth, yr aelod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw.

Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau arweinydd a chabinet

4.-(1) Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth arweinydd a chabinet, mae gan y personau canlynol bŵer i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11-

- (a) y weithrediaeth, aelod o'r weithrediaeth, neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a ddyrennir gan drefniadau gweithrediaeth i'r weithrediaeth, i'r aelod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, i'r pwyllgor hwnnw;
- (b) yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, y weithrediaeth, aelod o'r weithrediaeth neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau y mae arweinydd y weithrediaeth wedi trefnu iddynt gael eu cyflawni gan y weithrediaeth, yr aelod hwnnw, neu yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw;
- (c) yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, pwyllgor o'r weithrediaeth, mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau y mae'r weithrediaeth wedi trefnu iddynt gael eu cyflawni gan y pwyllgor hwnnw yn rhinwedd adran 15(5)(a) o Ddeddf 2000;
- (ch) arweinydd y weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth i'r graddau nad ydynt wedi'u dyrannu drwy ddarpariaeth a wnaed mewn trefniadau gweithrediaeth.

manager;

- (c) where the local authority has a leader and cabinet executive and the power to make the arrangements arises by virtue of subparagraphs (b), (c) or (d) of regulation 4(1), the executive leader.

Power to make arrangements: mayor and cabinet executives

3. In the case of a local authority which has a mayor and cabinet executive, the following persons have power to make arrangements under regulations 6 and 7 and to make arrangements under section 101(5) of the 1972 Act in accordance with regulation 11 -

- (a) the elected mayor as respects any functions which are the responsibility of the executive;
- (b) unless the elected mayor otherwise directs, the executive of the local authority, a member of the executive other than the elected mayor, or a committee of the executive as respects any functions which, by virtue of section 14 of the 2000 Act, may be discharged by the executive, that member or, as the case may be, that committee.

Power to make arrangements: leader and cabinet executives

4. -(1) In the case of a local authority which has a leader and cabinet executive, the following persons have power to make arrangements under regulations 6 and 7 and to make arrangements under section 101(5) of the 1972 Act in accordance with regulation 11 -

- (a) the executive, a member of the executive, or a committee of the executive as respects any functions which are allocated by executive arrangements to the executive, that member or, as the case may be, that committee;
- (b) subject to paragraph (2) below, the executive, a member of the executive or a committee of the executive as respects any functions which the executive leader has arranged to be discharged by the executive, that member or, as the case may be, that committee;
- (c) subject to paragraph (2) below, a committee of the executive, as respects any functions which the executive have arranged to be discharged by that committee by virtue of section 15(5)(a) of the 2000 Act;
- (d) the executive leader as respects any functions which are the responsibility of the executive to the extent that they are not allocated by provision made in executive arrangements.

(2) Os yw arweinydd y weithrediaeth yn gwneud unrhyw drefniadau o dan reoliad 6 neu 7 neu'n gwneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11, caiff gyfarwyddo, bryd hynny neu ar unrhyw adeg ddilynol, nad yw paragraff (1)(b) neu (c) uchod i fod yn gymwys i unrhyw un o'r swyddogaethau sy'n dod o dan y trefniadau hynny neu nad yw i fod yn gymwys i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny mewn unrhyw achosion neu amgylchiadau y gallai arweinydd y weithrediaeth eu cyfarwyddo.

Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau maer a rheolwr cyngor

5. Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth maer a rheolwr cyngor, mae gan y personau canlynol bŵer i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11-

- (a) y rheolwr cyngor mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;
- (b) gweithrediaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a all gael eu cyflawni, yn rhinwedd adran 16 o Ddeddf 2000, gan y weithrediaeth.

Cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau ardal

6.-(1) Caiff person sydd â phŵer i wneud trefniadau o dan y rheoliad hwn drefnu i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol perthnasol gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod hwnnw.

(2) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal yn rhinwedd y rheoliad hwn, yna, oni bai bod y person perthnasol yn cyfarwyddo fel arall, caiff y pwyllgor ardal drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu gan un o swyddogion yr awdurdod.

(3) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan is-bwyllgor o bwyllgor ardal yn rhinwedd paragraff (2) uchod, yna, oni bai bod y pwyllgor ardal neu'r person perthnasol yn cyfarwyddo fel arall, caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan un o swyddogion yr awdurdod.

(4) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliad 3, 4 neu 5 uchod ar gyfer cyflawni unrhyw swyddogaethau gan bwyllgor ardal i atal y person hwnnw rhag arfer y swyddogaethau hynny.

(5) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud trefniadau o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r weithrediaeth sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod i gael eu harchwilio gan aelodau'r cyhoedd

(2) Where the executive leader makes any arrangements under regulation 6 or 7 or makes arrangements under section 101(5) of the 1972 Act in accordance with regulation 11 the executive leader may direct, at that or any subsequent time, that paragraph (1)(b) or (c) above is not to apply to any of the functions which are the subject of those arrangements or is not to apply to any of those functions in such cases or circumstances as the executive leader may direct.

Power to make arrangements: mayor and council manager executives

5. In the case of a local authority which has a mayor and council manager executive, the following persons have power to make arrangements under regulations 6 and 7 and to make arrangements under section 101(5) of the 1972 Act in accordance with regulation 11 -

- (a) the council manager as respects any functions which are the responsibility of the executive;
- (b) the executive of the local authority as respects any functions which, by virtue of section 16 of the 2000 Act, may be discharged by the executive.

Discharge of functions by area committees

6. -(1) A person with power to make arrangements under this regulation may arrange for the discharge of any functions which are the responsibility of the executive of the relevant local authority by an area committee of that authority.

(2) Where by virtue of this regulation any functions may be discharged by an area committee, then unless the relevant person directs otherwise, the area committee may arrange for the discharge of any of those functions by a sub-committee of that committee or by an officer of the authority.

(3) Where by virtue of paragraph (2) above any functions may be discharged by a sub-committee of an area committee, then, unless the area committee or the relevant person directs otherwise, the sub-committee may arrange for the discharge of any of those functions by an officer of the authority.

(4) Any arrangements made under this regulation by a person specified in regulation 3, 4 or 5 above for the discharge of any functions by an area committee are not to prevent that person from exercising those functions.

(5) As soon as reasonably practicable after making arrangements under this regulation the executive must secure that copies of a document setting out the provisions of the arrangements are available at the authority's principal office for inspection by members

ar bob adeg resymol.

(6) Wrth baratoi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (5) uchod, rhaid i'r weithrediaeth roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 38 o Ddeddf 2000.

Cyflawni swyddogaethau gan awdurdod lleol arall

7.-(1) Caiff person sydd â phŵer i wneud trefniadau o dan y rheoliad hwn wneud trefniadau gydag awdurdod lleol arall yn unol â'r rheoliad hwn.

- (2) Caiff trefniadau o dan y rheoliad hwn ddarparu-
- (a) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni naill ai gan awdurdod lleol arall neu gan weithrediaeth yr awdurdod arall hwnnw os yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw ond nad yw'n un sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw;
 - (b) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall os yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw;
 - (c) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall os nad yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw a bod gan yr awdurdod arall hwnnw weithrediaeth;
 - (ch) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan awdurdod lleol arall os nad yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw ac nad oes gan yr awdurdod arall hwnnw weithrediaeth.

(3) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn i atal y person a wnaeth y trefniadau rhag arfer y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy.

Trefniadau i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall

8.-(1) Caiff awdurdod lleol wneud trefniadau gydag awdurdod lleol arall i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw gyflawni unrhyw swyddogaethau i'r awdurdod cyntaf a grybwyllwyd nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw -

- (a) os nad yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw; neu
- (b) os yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw ac yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod arall hwnnw.

of the public at all reasonable hours.

(6) The executive shall, in preparing the document referred to in paragraph (5) above, have regard to any guidance issued by the National Assembly under section 38 of the 2000 Act.

Discharge of functions by another local authority

7. -(1) A person with power to make arrangements under this regulation may make arrangements with another local authority in accordance with this regulation.

- (2) Arrangements under this regulation may provide -
- (a) for a function which is the responsibility of the executive of one local authority to be discharged either by another local authority or by the executive of that other authority if that function is a function of that other local authority but is not one which is the responsibility of the executive of that other local authority;
 - (b) for a function which is the responsibility of the executive of one local authority to be discharged by the executive of another local authority if that function is a function which is the responsibility of the executive of that other local authority;
 - (c) for a function which is the responsibility of the executive of one local authority to be discharged by the executive of another local authority if that function is not a function of that other local authority and that other authority has an executive;
 - (d) for a function which is the responsibility of the executive of one local authority to be discharged by another local authority if that function is not a function of that other local authority and that other authority does not have an executive.

(3) Any arrangements made under this regulation are not to prevent the person who made the arrangements from exercising the functions to which they relate.

Arrangements for the functions of a local authority to be discharged by the executive of another local authority

8. -(1) A local authority may make arrangements with another local authority for the discharge by the executive of that other local authority of any functions of the first mentioned authority which are not the responsibility of the executive of that authority if -

- (a) the functions are not functions of that other local authority; or
- (b) the functions are functions of that other local authority and are the responsibility of the executive of that other authority.

(2) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn i atal yr awdurdod a wnaeth y trefniadau rhag arfer y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy.

Swyddogaethau a ddirprwyir i awdurdod lleol arall at ddibenion adrannau 14 ac 16 o Ddeddf 2000

9. Os oes trefniadau mewn grym yn rhinwedd rheoliad 7 neu 8 uchod i unrhyw un o swyddogaethau awdurdod lleol, neu i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw, gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall, rhaid trin y swyddogaethau hynny, at ddibenion adrannau 14 i 16 o Ddeddf 2000, fel swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw.

Arfer swyddogaethau gan awdurdod lleol arall

10.-(1) Os oes trefniadau mewn grym, yn rhinwedd rheoliad 7 uchod, i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall, yna, yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau, caiff yr awdurdod arall hwnnw drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog iddynt.

(2) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni, yn rhinwedd paragraff (1) uchod, gan bwyllgor i awdurdod lleol, yna, oni bai bod yr awdurdod hwnnw'n cyfarwyddo fel arall, caiff y pwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan is-bwyllgor neu swyddog i'r awdurdod.

(3) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni, yn rhinwedd paragraff (1) neu (2) uchod, gan is-bwyllgor i awdurdod lleol, yna, oni bai bod yr awdurdod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw yn cyfarwyddo fel arall, caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan un o swyddogion yr awdurdod.

Arfer swyddogaethau ar y cyd

11.-(1) Rhaid i drefniadau a wneir o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 gan berson y mae rheoliad 3, 4 neu 5 uchod yn rhoi'r pŵer iddo wneud hynny, gael eu gwneud yn unol â'r rheoliad hwn.

- (2) Rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud -
- (a) os yw'r swyddogaethau y mae'r trefniadau'n ymwneud â hwy yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall o dan sylw, gyda'r person sydd, yn rhinwedd rheoliad 3, 4 neu 5 uchod, â phŵer i wneud trefniadau o'r fath ar ran yr awdurdod hwnnw;
 - (b) mewn unrhyw achos arall, gyda'r awdurdod lleol arall.

(2) Any arrangements made under this regulation are not to prevent the authority that made the arrangements from exercising the functions to which they relate.

Functions delegated to another local authority for the purposes of sections 14 and 16 of the 2000 Act

9. Where, by virtue of regulation 7 or 8 above arrangements are in force for the discharge of any functions of a local authority, or for the discharge of any functions which are the responsibility of the executive of that authority, by the executive of another local authority, those functions shall be treated, for the purposes of sections 14 to 16 of the 2000 Act, as functions which are the responsibility of the executive of that other local authority.

Exercise of functions by another local authority

10. -(1) Where, by virtue of regulation 7 above, arrangements are in force for the discharge of any functions which are the responsibility of the executive of a local authority by another local authority, then, subject to the terms of the arrangements, that other authority may arrange for the discharge of any of those functions by a committee, sub-committee or officer of theirs.

(2) Where by virtue of paragraph (1) above any functions may be discharged by a committee of a local authority, then, unless that authority otherwise directs, the committee may arrange for the discharge of any of those functions by a sub-committee or an officer of the authority.

(3) Where by virtue of paragraph (1) or (2) above any functions may be discharged by a sub-committee of a local authority, then, unless that authority or, as the case may be, that committee otherwise directs, the sub-committee may arrange for the discharge of any of those functions by an officer of the authority.

Joint exercise of functions

11. -(1) Arrangements made under section 101(5) of the 1972 Act by a person on whom the power to do so is conferred by regulation 3, 4 or 5 above must be made in accordance with this regulation.

- (2) The arrangements must be made -
- (a) where the functions to which the arrangements relate are the responsibility of the executive of the other local authority concerned, with the person who, by virtue of regulation 3, 4 or 5 above, has power to make such arrangements on behalf of that authority;
 - (b) in any other case, with the other local authority.

(3) Os yw'r trefniadau yn darparu i swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyd-bwyllgor, rhaid i benodiadau'r personau sydd i gynrychioli pob awdurdod lleol ar y pwyllgor hwnnw gael eu gwneud, a rhaid i nifer y personau hynny sydd i'w penodi gael ei benderfynu, gan y person sy'n gwneud y trefniadau ar ran yr awdurdod hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau ac oni bai bod y person perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod lleol y mae ei swyddogaethau'n destun y trefniadau yn cyfarwyddo fel arall, caiff cyd-bwyllgor a benodir yn unol â'r rheoliad hwn drefnu i unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei chyflawni gan is-bwyllgor neu swyddog i un o'r awdurdodau o dan sylw, ac yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau ac oni bai bod y cyd-bwyllgor neu'r person perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod lleol y mae ei swyddogaethau'n destun y trefniadau yn cyfarwyddo fel arall, caiff unrhyw is-bwyllgor o'r fath drefnu i unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei chyflawni gan swyddog o'r fath.

(5) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir yn unol â'r rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliadau 3, 4 neu 5 uchod i unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyd-bwyllgor i atal y person hwnnw rhag arfer y swyddogaethau hynny.

(6) Os yw trefniadau a wneir ar ran awdurdod lleol yn unol â'r rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliad 3, 4 neu 5 uchod yn darparu ar gyfer penodi personau nad ydynt yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw i gyd-bwyllgor, cyn gynted ag y bo'n rhwymol ymarferol ar ôl gwneud y trefniadau, rhaid i'r person hwnnw sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod i gael eu harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol.

(7) Rhaid i berson sy'n paratoi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (6) uchod roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 38 o Ddeddf 2000.

(8) Bydd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001(a) yn gymwys i gyfarfod o gyd-bwyllgor -

- (a) a sefydlir gan drefniadau a wneir yn unol â'r rheoliad hwn yn unig gan weithrediaethau, aelodau gweithrediaethau neu bwyllgorau gweithrediaethau os yw'r holl weithrediaethau o dan sylw yn cynnal eu cyfarfodydd yn breifat; a
- (b) lle nad oes yr un o'i aelodau yn aelod o un o'r awdurdodau lleol o dan sylw ond nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw,

fel pe bai cyfarfodydd y cyd-bwyllgor hwnnw yn gyfarfodydd preifat o bwyllgor gweithrediaeth awdurdod lleol, oni bai bod yr holl weithrediaethau hynny yn cytuno fel arall.

(a) O.S. 2001/2290 (Cy.178)

(3) If the arrangements provide for the discharge of functions by a joint committee, appointments of the persons who are to represent each local authority on that committee must be made, and the number of such persons to be appointed must be determined by the person by whom the arrangements are made on behalf of that authority.

(4) A joint committee appointed in accordance with this regulation may, subject to the terms of the arrangements and unless the relevant person in relation to the local authority whose functions are the subject of the arrangements directs otherwise, arrange for the discharge of any of its functions by a sub-committee or an officer of one of the authorities concerned, and any such sub-committee may, subject to the terms of the arrangements and unless the joint committee or the relevant person in relation to the local authority whose functions are the subject of the arrangements directs otherwise, arrange for the discharge of any of its functions by such an officer.

(5) Any arrangements made in accordance with this regulation by a person specified in regulation 3, 4 or 5 above for the discharge of any functions by a joint committee are not to prevent that person from exercising those functions.

(6) Where arrangements made on behalf of a local authority in accordance with this regulation by a person specified in regulation 3, 4 or 5 above provide for the appointment to a joint committee of persons who are not members of the executive of that authority, that person must, as soon as reasonably practicable after making the arrangements, secure that copies of a document setting out the provisions of the arrangements are available at the authority's principal office for inspection by members of the public at all reasonable hours.

(7) A person preparing the document referred to in paragraph (6) above shall have regard to any guidance issued by the National Assembly for Wales under section 38 of the 2000 Act.

(8) The Local Authorities (Executive Arrangements) (Decisions, Documents and Meetings) (Wales) Regulations 2001(a) shall apply to a meeting of a joint committee -

- (a) which is established by arrangements made in accordance with this regulation only by executives, members of executives or committees of executives where all of the executives concerned hold their meetings in private; and
- (b) in which no member is a member of one of the local authorities concerned but is not a member of the executive of that authority,

as if meetings of that joint committee were private meetings of a committee of a local authority executive, unless all of those executives agree otherwise.

(a) S.I 2001/2290 (W. 178).

(9) Ac eithrio fel y disgrifir ym mharagraff (8) uchod, bydd Rhan VA o Ddeddf 1972 (cael mynediad i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol) yn gymwys i gyd-bwyllgorau a sefydlir yn unol â'r rheoliad hwn.

Aelodau cyd-bwyllgorau

12.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) isod, rhaid i bob person a benodir i gyd-bwyllgor yn unol â rheoliad 11 uchod gan weithrediaeth, aelod gweithrediaeth neu bwyllgor gweithrediaeth fod yn aelod o'r weithrediaeth honno, ac ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi aelodau o'r fath.

(2) Os gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor yw'r weithrediaeth o dan sylw -

- (a) rhaid i'r maer etholedig beidio â bod yn aelod o'r cyd-bwyllgor; a
- (b) caiff y rheolwr cyngor naill ai fod yn aelod o'r cyd-bwyllgor neu drefnu i un arall o swyddogion yr awdurdod lleol fod yn aelod o'r cyd-bwyllgor, a bydd yr aelod hwnnw yn aelod gyda phleidlais o'r pwyllgor hwnnw.

(3) Os-

- (a) oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau mewn perthynas â rhan yn unig o ardal un o'r awdurdodau lleol o dan sylw;
- (b) yw'r swyddogaethau hynny yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw; ac
- (c) naill ai-
 - (i) nad yw arwynebedd y rhan honno yn fwy na dwy ran o bump o gyfanswm arwynebedd yr awdurdod; neu
 - (ii) nad yw poblogaeth y rhan honno, yn ôl amcangyfrif yr awdurdod, yn fwy na dwy ran o bump o gyfanswm poblogaeth yr awdurdod yn ôl yr amcangyfrif hwnnw,

caiff cynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw ar y cyd-bwyllgor gynnwys unrhyw aelodau o'r awdurdod hwnnw sydd wedi'u hethol dros adrannau neu wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno o ardal yr awdurdod, ac ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi'r aelodau hynny.

(4) Os oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau mewn perthynas â rhan o ardal un o'r awdurdodau lleol o dan sylw a bod cynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw ar y pwyllgor hwnnw yn cael eu penodi gan yr awdurdod, ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi'r cynrychiolwyr hynny a rhaid i'r cynrychiolwyr hynny fod yn aelodau o'r awdurdod lleol hwnnw sydd wedi'u hethol dros adrannau neu wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno o ardal yr awdurdod.

(9) Except as described in paragraph (8) above, Part VA of the 1972 Act (access to meetings and documents of certain authorities, committees and sub-committees) shall apply to a joint committee established in accordance with this regulation.

Members of joint committees

12. -(1) Subject to paragraphs (2) and (3) below, every person appointed to a joint committee in accordance with regulation 11 above by an executive, a member of an executive or a committee of an executive must be a member of that executive, and the political balance requirements shall not apply to the appointment of such members.

(2) Where the executive concerned is a mayor and council manager executive -

- (a) the elected mayor must not be a member of the joint committee; and
- (b) the council manager may either be a member of the joint committee or arrange for another officer of the local authority to be a member of the joint committee, and such a member shall be a voting member of that committee.

(3) Where -

- (a) the joint committee has functions in respect of part only of the area of one of the local authorities concerned;
- (b) those functions are the responsibility of the executive of that authority; and
- (c) either -
 - (i) the area of that part does not exceed two-fifths of the total area of the authority; or
 - (ii) the population of that part, as estimated by the authority, does not exceed two-fifths of the total population of the authority as so estimated,

the representatives of that authority on the joint committee may include any members of that authority who have been elected for electoral divisions or wards which are wholly or partly within that part of the authority's area, and the political balance requirements shall not apply to the appointment of those members.

(4) Where the joint committee has functions in respect of part of the area of one of the local authorities concerned and the representatives of that authority on that committee are appointed by the authority, the political balance requirements shall not apply to the appointment of those representatives and those representatives must be members of that local authority who have been elected for electoral divisions or wards which are wholly or partly within that part of the authority's area.

Diddymu

13. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001(a) drwy hyn yn cael eu diddymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b)

21 Mawrth 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Revocation

13. The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2001(a) are hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b)

21st March 2002

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis - Thomas

(a) O.S. 2001/2287 (Cy.175)

(b) 1998 p.38

(a) S.I. 2001/2287 (W. 175).

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 802 (Cy.87)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 802 (W.87)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Wales) Regulations
2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.50

W0038/02/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090481-8



9 780110 904818